


YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES

GWASANAETHAU ANGLADD




FUNERAL SERVICES



**YR EGLWYS YNG NGHYMRU
GWASANAETHAU ANGLADD**

**THE CHURCH IN WALES
FUNERAL SERVICES**



Y DOD YNGHYD

*Gall y gweinidog dderbyn yr arch.
Gellir defnyddio brawddeg neu frawddegau o'r Ysgrythur.*

'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd,' medd yr Arglwydd. 'Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.'
(Ioan 11. 25,26)

Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angyllion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymsterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.
(Rhufeiniaid 8. 38,39)

Os ydym yn credu i Iesu farw ac atgyfodi, felly hefyd bydd Duw, gydag ef, yn dod â'r rhai a hunodd drwy Iesu; ac felly byddwn gyda'r Arglwydd yn barhaus. Calonogwch eich gilydd, felly, â'r geiriau hyn.
(I Thesalonïaid 4.14,17b,18)

Ni ddaethom â dim i'r byd, ac felly ni allwn fynd â dim allan ohono. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith. Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd.
(I Timotheus 6.7: Job 1.21b)

Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw ei ffyddlondeb.
(Galarnad 3.22,23)

Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.
(Mathew 5.4)

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.
(Ioan 3.16)

THE GATHERING

*The coffin may be received by the minister.
One or more sentences of Scripture may be used.*

'I am the resurrection and the life', says the Lord. 'Those who believe in me, even though they die, will live, and everyone who lives and believes in me will never die.'
(John 11. 25,26)

I am convinced that neither death, nor life, nor angels, nor rulers, nor things present, nor things to come, nor powers, nor height, nor depth, nor anything else in all creation, will be able to separate us from the love of God in Christ Jesus our Lord.
(Romans 8. 38,39)

We believe that Jesus died and rose again and so we believe that God will bring with Jesus those who have fallen asleep in him. And so we will be with the Lord for ever. Therefore encourage each other with these words.
(1 Thessalonians 4.14,17b,18)

We brought nothing into the world, and we can take nothing out of it. The Lord gave and the Lord has taken away; may the name of the Lord be praised.
(1 Timothy 6.7: Job 1.21b)

The steadfast love of the Lord never ceases, his mercies never come to an end; they are new every morning; great is his faithfulness.
(Lamentations 3.22,23)

Blessed are those who mourn, for they will be comforted.
(Matthew 5.4)

God so loved the world that he gave his one and only Son, that whoever believes in him shall not perish but have eternal life.
(John 3.16)

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.
(Rhufeiniaid 14.8,9)

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthych fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.
(Ioan 14.1-3)

Dywed y gweinidog

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
A'th gadw di yng nghariad Crist.

Neu yn nhymor y Pasg

Alelwia! Atgyfododd Crist.

Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Gellir defnyddio un o'r cyflwyniadau a ganlyn.

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein *brawd/chwaer E.*
i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol.
Yn wyneb angau,
mae gan Gristnogion sail sicr i obaith a hyder,
ie, i lawenydd,
am fod yr Arglwydd Iesu Grist,
a fu byw a marw fel dyn,
wedi atgyfodi mewn buddugoliaeth
ac yn byw byth.
Ynndo ef y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol,
a chan gredu hyn,
yr ydym yn gosod ein holl ymddiried
yn ei ddaioni a'i drugaredd.

While we are alive, we are living for the Lord, and when we die, we die for the Lord: and so, alive or dead, we belong to the Lord. It was for this purpose that Christ both died and came to life again: so that he might be Lord of both the dead and the living.
(Romans 14.8,9)

Set your troubled hearts at rest. Trust in God always; trust also in me. There are many dwelling places in my Father's house; if it were not so I should have told you; for I am going to prepare a place for you. And if I go and prepare a place for you, I shall come again and take you to myself, so that where I am you may be also.
(John 14.1-3)

The minister says

In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. **Amen.**

Grace and peace be with you
and keep you in the love of Christ.

Or in Eastertide

Alleluia! Christ is risen.
He is risen indeed. Alleluia!

One of the following introductions may be used.

We have come together to commend our *brother/sister N.*
into the hands of Almighty God our heavenly Father.
In the presence of death,
Christians have sure ground for hope and confidence,
and even for joy,
because the Lord Jesus Christ,
who shared our human life and death,
was raised again triumphant
and lives for evermore.
In him his people find eternal life,
and, in this faith,
we put our whole trust
in his goodness and mercy.

Neu

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist,
a fu farw ac a gyfododd er gogoniant Duw Dad.
Daethom yma heddiw
i gofio gerbron Duw ein *brawd/chwaer E.*
i ddiolch am ei *f/bywyd*;
i'w *g/chyflwyno* i Dduw, ein hiachawdwr trugarog a'n barnwr;
i draddodi ei *g/chorff* i'w gladdu/amlosgi,
ac i gysuro ein gilydd yn ein galar.

Neu eiriau cyffelyb.

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn ein barnu â thrugaredd a chyfiawnder diderfyn
ac yn caru pob peth a wnaethost.
Yn dy drugaredd
cynorthwya ni i wybod dy fod yn troi tywyllwch marwolaeth
yn wawr bywyd newydd,
a galar gwahanu yn llawenydd y nefoedd;
trwy ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Amen.

Gellir canu emyn.

Or

We meet in the name of Jesus Christ,
who died and was raised to the glory of God the Father.
We have come here today
to remember before God our *brother/sister N.*
to give thanks for *his/her* life;
to commend *him/her* to God our merciful redeemer and judge;
to commit *his/her* body to be buried/cremated,
and to comfort one another in our grief.

Or other similar words.

Almighty God,
you judge us with infinite mercy and justice
and love everything you have made.
In your mercy
help us to know that you turn the darkness of death
into the dawn of new life,
and the sorrow of parting into the joy of heaven;
through our Saviour, Jesus Christ.

Amen.

A hymn may be sung.

Y COLECT

Y mae'r gweinidog yn gwahodd y bobl i weddio; cedwir distawrwydd a dywed y gweinidog naill ai un o'r Colectau a ganlyn neu Golect addas arall.

Naill ai

Dad trugarog, clyw ein gweddïau a chysura ni;
adnewyddda ein hymddiried yn dy Fab,
a gyfodaist oddi wrth y meirw;
cryfha ein ffydd
y bydd i bawb a fu farw yng nghariad Crist
rannu ei atgyfodiad ef;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

Neu

Dduw pob diddanwch,
cyffrowyd dy Fab Iesu Grist hyd at ddagrau
wrth fedd Lasarus ei ffrind.
Edrych yn drugarog ar dy blant yn eu colled;
dyro i galonnau gofidus oleuni gobaith
a chryfha ynom ddawn ffydd
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**



THE COLLECT

The minister invites the people to pray, silence is kept and the minister says either of these or another suitable Collect.

Either

Merciful Father, hear our prayers and comfort us;
renew our trust in your Son,
whom you raised from the dead;
strengthen our faith
that all who have died in the love of Christ
will share in his resurrection;
who lives and reigns with you,
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

Or

God of all consolation,
your Son Jesus Christ was moved to tears
at the grave of Lazarus his friend.
Look with compassion on your children in their loss;
give to troubled hearts the light of hope
and strengthen in us the gift of faith
in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

DARLLENIADAU A PHREGETH

Gellir darllen o'r Hen Destament neu o'r Testament Newydd. Gellir defnyddio'r salm hon, neu salm arall neu emyn.

Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.
Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision,
a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,
ac y mae ef yn fy adfywio.
Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.
Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed,
oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.
Yr wyt yn arlwyo bwrdd o'm blaen yng ngwŷdd fy ngelynion;
yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.
Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd,
a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd weddill fy nyddiau.
(Salm 23)

Defnyddir darlleniad o'r Testament Newydd (a all fod yn ddarlleniad o'r Efengyl).

Gellir traddodi pregeth.



READINGS AND SERMON

A reading from the Old or New Testament may be read. This or another psalm or hymn is used.

The Lord is my shepherd: therefore can I lack nothing.
He makes me lie down in green pastures: and leads me beside still waters.
He shall refresh my soul: and guide me in the paths of righteousness for his name's sake.
Though I walk through the valley of the shadow of death, I will fear no evil: for you are with me; your rod and your staff, they comfort me.
You spread a table before me in the presence of those who trouble me: you have anointed my head with oil and my cup shall be full.
Surely goodness and loving mercy shall follow me all the days of my life: and I will dwell in the house of the Lord for ever.
(Psalm 23)

A reading from the New Testament (which may be a Gospel reading) is used.

A sermon may be preached.

GWEDDIAU

Y mae gweinidog yn arwain gweddïau'r bobl.

Fel rheol, bydd y gweddïau'n dilyn y drefn a ganlyn:

Diolchgarwch am fywyd yr ymadawedig

Gweddi dros y rhai sy'n galaru

Gweddiâu o edifeirwch (onis defnyddiwyd eisoes)

Gweddi am barodwydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb.

Gellir defnyddio'r ffurf a ganlyn. Os bydd achos, gellir hepgor yr ymatebion a gall y gweinidog ei hun ddweud y weddi glo.

Dduw trugarog, Arglwydd pob bywyd,
lluniaist ni ar dy ddelw
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni:
diolchwn iti am E.,
am y cariad a'r trugaredd a dderbyniodd gennyt,
am y cyfan a fu'n dda yn ei *f*bywyd,
am yr atgofion yr ydym yn eu trysori heddiw.
(Diolchwn iti yn arbennig am ...)

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Diolchwn iti am bawb
a fu byw, trwy dy ras, yn ôl dy ewyllys
ac sy'n awr yn gorffwyso.
Bydded i'w hesiampl dda ein hannog a'n tywys
holl ddyddïau ein bywyd.
Tyrd i gwrdd â ni yn ein tristwch
a llanw ein calonnau â moliant a diolch.

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

PRAYERS

A minister leads the prayers of the people.

The prayers usually follow this sequence:

Thanksgiving for the life of the departed

Prayer for those who mourn

Prayers of Penitence (if not already used)

Prayer for readiness to live in the light of eternity.

This form may be used. If occasion demands, the responses may be omitted and the concluding prayer said by the minister alone.

God of mercy, Lord of life,
you have made us in your image
to reflect your truth and light:
we give you thanks for N.,
for the grace and mercy s/he received from you,
for all that was good in his/her life,
for the memories we treasure today.
(Especially we thank you ...)

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

We thank you for all who through your grace
have lived according to your will
and are now at rest.
May their good example encourage and guide us
all the days of our life.
Meet us in our sadness
and fill our hearts with praise and thanksgiving.

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

Yn dy Fab yr wyt yn addo bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu.
Dwg E. a phawb sy'n gorffwyso yng Nghrist
i gyflawnder dy deyrnas
lle y maddeuwyd pechodau
ac nid oes angau mwyach.

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Daw dy allu nerthol â llawenydd o dristwch
a bywyd o farwolaeth.
Edrych yn drugarog ar (E. a) phawb sy'n galaru.
Dyry iddynt ffydd amyneddgar pan fo'r dyddiau'n dywyll.
Nertha hwy â gwybodaeth o'th gariad.

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Yr wyt yn dyner at dy blant
ac y mae dy drugaredd dros dy holl weithredoedd.
Dyry inni ddoethineb a gras
i iawn ddefnyddio'r amser sy'n weddill inni ar y ddaear hon,
i droi at Grist a dilyn ôl ei draed
ar y ffordd sy'n arwain i fywyd tragwyddol.

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

**Dduw trugarog,
gan ymddiried i'th ddwylo bopeth a wnaethost
a chan lawenhau yn ein cymundeb â'th holl bobl ffyddlon,
offrymwn ein gweddïau trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr. Amen.**

Gellir dweud Gweddi'r Arglwydd.

In your Son you promise eternal life to those who believe.
Bring N. and all who rest in Christ
into the fullness of your kingdom
where sins have been forgiven
and death is no more.

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

Your mighty power brings joy out of grief
and life out of death.
Look in mercy on (N. and) all who mourn.
Give them patient faith in times of darkness.
Strengthen them with the knowledge of your love.

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

You are tender towards your children
and your mercy is over all your works.
Give us the wisdom and grace to use aright
the time that is left to us here on earth,
to turn to Christ and follow in his steps
in the way that leads to everlasting life.

Lord, in your mercy,
hear our prayer.

**God of mercy,
entrusting into your hands all that you have made
and rejoicing in our communion with all your faithful people,
we make our prayers through Jesus Christ our Saviour. Amen.**

The Lord's Prayer may be said.

Naill ai

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

Neu

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Gellir canu emyn.

Either

Let us pray with confidence to the Father:

**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.**

**For the kingdom, the power,
and the glory are yours,
now and for ever. Amen**

Or

As our Saviour taught us, we boldly pray:

**Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.**

**For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen.**

A hymn may be sung.

CYFLWYNO A FFARWELIO

Saif y gweinidog wrth yr arch a gall wahodd eraill i ymgynnull o'i chwmpas.

Dywed y gweinidog

Cyflwynwn E. i ddwylo Duw,
Ein crëwr a'n gwaredwr.

Cedwir distawrwydd.

Defnyddia'r gweinidog y weddi hon neu weddi arall o ymddiried a chyflwyno.

O Dduw ein crëwr a'n gwaredwr,
trwy dy allu gorchfygodd Crist farwolaeth
a mynd i mewn i'w ogoniant.
Yn llawn hyder yn ei fuddugoliaeth
a chan hawlio ei addewidion,
ymddiriedwn E. i'th ofal
yn enw Iesu ein Harglwydd,
a fu farw ac sy'n fyw
ac yn teyrnasu gyda thi,
yn awr a byth. **Amen.**

*Onid yw'r Traddodiant yn rhan o'r un gwasanaeth yn yr un lle, gellir defnyddio yma
adrannau o'r Anfon Allan.*



COMMENDATION AND FAREWELL

The minister stands by the coffin and may invite others to gather around it.

The minister says

Let us commend *N.* into the hands of God,
our maker and redeemer.

Silence is kept.

The minister uses this or another prayer of entrusting and commending.

God our creator and redeemer,
by your power Christ conquered death
and entered into glory.
Confident of his victory
and claiming his promises,
we entrust *N.* to your mercy
in the name of Jesus our Lord,
who died and is alive
and reigns with you,
now and for ever. **Amen.**

*If the Committal does not follow as part of the same service in the same place,
some sections of the Dismissal may be used here.*

Y TRADDODIANT

Gellir defnyddio brawddegau o'r Ysgrythur.

Dywed y gweinidog

Naill ai

Trugarog a graslon yw'r Arglwydd,
araf i ddigio a llawn ffyddlondeb.
Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant,
felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni.
Oherwydd y mae ef yn gwybod ein deunydd,
yn cofio mai llwch ydym.
Y mae dyddiau dyn fel glaswelltyn;
y mae'n blodeuo fel blodeuyn y maes;
pan â'r gwynt drosto fe ddiplanna,
ac nid yw ei le'n ei adnabod mwyach.
Ond y mae ffyddlondeb yr Arglwydd
o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai sy'n ei ofni,
a'i gyfiawnder i blant eu plant.

Neu

Nid oes gennym i fyw ond byr amser.
Blodeuwn fel blodau'r maes ac yna gwywo,
ehedwn ymaith fel cysgod heb fyth aros.
Yng nghanol bywyd yr ydym mewn angau;
at bwy y gallwn droi am gymorth
ond atat ti, O Arglwydd,
sydd am ein pechodau'n gyfiawn yn ddi-clon?
Er hynny, Arglwydd sancteiddiaf, Arglwydd galluocaf,
O lachawdwr sanctaidd a thrugarocaf,
na ollwng ni i chwerw boenau angau tragwyddol.
Arglwydd, adwaenost, ddirgelion ein calonnau;
O Dduw galluocaf, clyw ein gweddi;
tydi, deilyngaf Farnwr tragwyddol, arbed ni;
O Waredwr sanctaidd a thrugarog,
na ad inni yn hawr olaf syrthio oddi wrthyt.

THE COMMITTAL

Sentences of Scripture may be used.

The minister says

Either

The Lord is full of compassion and mercy,
slow to anger and of great goodness.
As a father is tender towards his children,
so is the Lord tender to those that fear him.
For he knows of what we are made;
he remembers that we are but dust.
Our days are like the grass;
we flourish like a flower of the field;
when the wind goes over it, it is gone
and its place will know it no more.
But the merciful goodness of the Lord endures
for ever and ever toward those that fear him
and his righteousness upon their children's children.

Or

We have but a short time to live.
Like a flower we blossom and then wither
like a shadow we flee and never stay.
In the midst of life we are in death;
to whom can we turn for help,
but to you, Lord, who are justly angered by our sins?
Yet, Lord God most holy, Lord most mighty,
O holy and most merciful Saviour,
deliver us from the bitter pain of eternal death.
Lord, you know the secrets of our hearts;
hear our prayer, O God most mighty;
spare us, most worthy judge eternal;
at our last hour let us not fall from you,
O holy and merciful Saviour.

Wrth gladdu corff

Naill ai

Yn ffydd Crist a chan gredu bod E. yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *g/chorff* i'r ddaear:
pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

Neu

Caniatâ, O Arglwydd, fod i ni a fedyddir
i farwolaeth dy Fab, ein Hiachawdwr Iesu Grist,
farwhau'n wastad ein dyheadau drygionus,
a chael ein claddu gydag ef;
a thrwy'r bedd a phorth angau
fynd ymlaen i'n hatgyfodiad llawen;
trwy ei haeddiannau ef, a fu farw ac a gladdwyd,
ac a gyfododd drachefn er ein mwyn,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Neu

Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
a sancteiddiodd, trwy ei arhosiad yn y bedd,
feddau pawb sy'n credu ynddo,
ac y mae ei bresenoldeb gwastadol
yn cryfhau gobaith yr atgyfodiad ynom ni
y mae ein cyrff marwol yn dihoeni a darfod;
gorffwysed dy *was/wasanaethferch E.* yma mewn heddwch
hyd yr awr pan eilw llais y Gwaredwr
eflhi i atgyfodiad ac i fywyd.
Gofynnwn hyn trwy dy Fab,
a oedd yn farw ond a ddygwyd i fywyd gan dy Ysbryd
ac sy'n teyrnasu yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

At the burial of a body

Either

In the faith of Christ and believing that *N.* is in the hands of God,
we commit *his/her* body to the ground:
earth to earth, ashes to ashes, dust to dust:
in sure and certain hope of the resurrection to eternal life
through our Lord Jesus Christ,
who will transform our frail bodies
that they may be conformed to his glorious body,
who died, was buried, and rose again for us.
To him be glory for ever. **Amen.**

Or

Grant, Lord, that we who are baptized into the death
of your Son our Saviour Jesus Christ
may continually put to death our evil desires
and be buried with him;
and that through the grave and gate of death
we may pass to our joyful resurrection;
through his merits, who died and was buried
and rose again for us,
your Son Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Or

God and Father of our Lord Jesus Christ,
who by his sojourn in the tomb
made holy the graves of all who believe in him
and whose abiding presence
strengthens the hope of resurrection in us,
whose mortal bodies are subject to decay;
may your servant *N.* rest here in peace
until that hour when the voice of the Saviour
calls *him/her* to resurrection and to life.
We ask this through your Son,
who was dead but was brought to life by your Spirit
and reigns as Lord for ever and ever. **Amen.**

Yn yr amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddigwydd yno

Yr ydym wedi ymddiried *ein brawd / chwaer E.* i drugaredd Duw,
ac yr ydym yn awr yn traddodi ei *g/chorff* i'w amlogi:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

Yn yr amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddilyn wrth Gladdu'r Llwch

Naill ai

Yr ydym wedi ymddiried *ein brawd / chwaer E.* i drugaredd Duw,
ac yn awr, mewn paratoad at ei *g/chladdedig*gaeth,
yr ydym yn rhoddi ei *g/chorff* i'w amlogi,
gan ddisgwyl cyflawnder yr atgyfodiad
pan gasgl a Crist ynghyd ei holl saint
i deyrnasu gydag ef mewn gogoniant am byth. **Amen.**

Neu

Hollalluog Dduw,
na all nac angau nac einioes ein gwahanu
oddi wrth dy gariad yng Nghrist Iesu,
ac y mae dy garedigrwydd yn cofleidio pawb o'th blant
yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod:
tynn *E.* atat dy hun
fel, yn ein cymdeithas â thi,
y gwybyddom ein bod yn un *ag ef / â hi.*
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**



In a crematorium, if the Committal is to take place then

We have entrusted our *brother/sister N.* to God's mercy,
and we now commit *his/her* body to be cremated:
in sure and certain hope of the resurrection to eternal life
through our Lord Jesus Christ,
who will transform our frail bodies
that they may be conformed to his glorious body,
who died, was buried, and rose again for us.
To him be glory for ever. **Amen.**

In a crematorium, if the Committal is to follow at the Burial of the Ashes

Either

We have entrusted our *brother/sister N.* to God's mercy,
and now, in preparation for burial,
we give *his/her* body to be cremated.
We look for the fullness of the resurrection
when Christ shall gather all his saints
to reign with him in glory for ever. **Amen.**

Or

Almighty God,
from whose love in Christ Jesus
neither death nor life can separate us,
and whose kindness embraces all your children
in this world and the next:
draw *N.* to yourself
that in our fellowship with you
we may know ourselves to be united with *him/her*.
This we ask through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Pan gleddir corff yn y môr

Yn ffydd Crist a chan gredu bod E. yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *g/chorff* i'r dwfn:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

YR ANFON ALLAN

Gall hyn gynnwys:

Gweddi'r Arglwydd (onis defnyddiwyd eisoes)

Y Nunc Dimittis

Gweddi neu weddiau addas

Diwedd glo.

Gweddi'r Arglwydd

Naill ai

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseiddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

At the burial of a body at sea

In the faith of Christ and believing that N. is in the hands of God,
we commit *his/her* body to the deep:
in sure and certain hope of the resurrection to eternal life
through our Lord Jesus Christ,
who will transform our frail bodies
that they may be conformed to his glorious body,
who died, was buried, and rose again for us.
To him be glory for ever. **Amen.**

THE SENDING OUT

This may include:

The Lord's Prayer (if not used earlier)

The Nunc Dimittis

One or more suitable prayers

An Ending.

The Lord's Prayer

Either

**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.**

**For the kingdom, the power,
and the glory are yours,
now and for ever. Amen**

Neu

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Nunc Dimittis (Cân Simeon)

Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air.
Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd;
Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd:
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.
**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:
Megis yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

or

**Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not into temptation
but deliver us from evil.**

**For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen.**

Nunc Dimittis (The Song of Simeon)

Lord, now you have set your servant free:
to go in peace as you have promised.
For these eyes of mine have seen your salvation:
which you have prepared for all the world to see;
A light to reveal you to the nations:
and to give glory to your people Israel.
**Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit:
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. Amen.**

Gellir dweud un neu ragor o'r gweddiau hyn, neu weddiau addas eraill.

Dad nefol,
yn dy Fab Iesu Grist
rhoddaist inni wir ffydd a gobaith diogel.
Cryfha ynom y ffydd a'r gobaith hwn holl ddyddiau ein bywyd
fel y bo inni fyw fel rhai sydd yn credu
yng nghymundeb y saint,
maddeuant pechodau
a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Duw fo yn fy mhen
a'm hymresymiad;
Duw fo yn fy nhrem,
ac yn f'edrychiad;
Duw fo yn fy ngair
ac yn fy siarad;
Duw fo yn fy mron
ac yn fy nirnad;
Duw ar ben fy nhaith,
ar fymadawiad. **Amen.**

Tywysed yr angylion di adref i baradwys,
croesawed y merthyron di wrth iti nesáu;
bydded iddynt dy dywys i'r Jerwsalem nefol.
Croesawed y corau angylion di;
a, chyda Lasarus nad yw'n dlawd mwyach,
bydded iti dragwyddol orffwys. **Amen.**

One or more of these prayers, or other suitable prayers, may be used.

Heavenly Father,
in your Son Jesus Christ
you have given us a true faith and a sure hope.
Strengthen this faith and hope in us all our days
that we may live as those who believe in
the communion of saints,
the forgiveness of sins
and the resurrection to eternal life;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

God be in my head,
and in my understanding;
God be in my eyes,
and in my looking;
God be in my mouth,
and in my speaking;
God be in my heart,
and in my thinking;
God be at my end,
and at my departing. **Amen.**

May the angels lead you home to paradise,
The martyrs welcome you as you draw near;
may they lead you into the heavenly Jerusalem.
May the choirs of angels welcome you;
and, with Lazarus who is poor no longer,
may you find eternal rest. **Amen.**

Dyro i enaid dy was/wasnaethferch ymadawedig
orffwys, O Grist, gyda'th saint, lle nad oes
na phoen na galar na gofid mwyach,
ond bywyd yn dragwyddol.
Tydi yw'r un anfarwol,
ein Crëwr a'n Lluniwr ni oll.
Marwolion ydym ni:
o'r ddaear y'n lluniwyd
ac i'r un ddaear y dychwelwn;
canys felly yr ordeiniaist pan greaist fi, gan ddywedyd:
"Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli".
I'r llwch y disgyn pawb ohonom ni.
Dan wylo uwch y bedd dyrchafwn gân:
Alelwia, Alelwia, Alelwia.

O Arglwydd, cynnal ni
trwy gydol dydd ein bywyd blin,
hyd onid estynno'r cysgodion a dyfod yr hwyr,
distewi o ddwndwr byd,
tawelu o dwymyn bywyd
a gorffen ein gwaith.
Yna, Arglwydd, yn dy drugaredd dyro inni breswylfa ddiogel,
gorffwysfa sanctaidd a thangnefedd yn y diwedd;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir defnyddio un o'r canlynol neu ddiweddglö addas arall.

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn
ddwyn yr Eglwys gyfan,
y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu,
i atgyfodiad llawen
a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol. **Amen.**

Give rest with the saints, O Christ,
to the soul of your servant departed,
that s/he may repose in a place
where pain and sorrow and grief are no more,
but life everlasting.

You are the immortal one,
O creator and maker of us all.

We are mortals:

from earth we were fashioned, to earth we return;
for so did you ordain when you made me, saying:
“Dust you are, and unto dust you will return”.

All we go down to the dust
yet even over the grave we make our song:
Alleluia, Alleluia, Alleluia.

Support us, O Lord,
all the day long of this troublous life,
until the shadows lengthen and the evening comes,
the busy world is hushed,
the fever of life is over
and our work is done.

Then, Lord, in your mercy grant us a safe lodging,
a holy rest, and peace at the last;
through Christ our Lord. **Amen.**

One of these, or another suitable ending, may be used.

May God in his infinite love and mercy
bring the whole Church,
living and departed in the Lord Jesus,
to a joyful resurrection
and the fulfilment of his eternal kingdom. **Amen.**

Rhodded Duw ichwi
ei ddidanwch a'i dangnefedd,
ei oleuni a'i lawenydd,
yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Fe ddengys Duw inni lwybr bywyd;
yn ei bresenoldeb y mae cyflawnder llawenydd:
ac yn ei ddeheulaw fwyniant bythol.
(cf. Salm 16.11)

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio,
a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant,
iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwardedwr,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y byddo gogoniant a mawrhydi,
gallu ac awdurdod,
cyn yr oesoedd, ac yn awr,
a byth bythoedd. **Amen.**
(Jwdas 24, 25.)

Dyro *iddoliddi*, O Arglwydd, orffwys tragwyddol:
A llewyrched goleuni gwastadol *arnoli*.
Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd:
Yn enw Crist. **Amen.**

Arhosed cymorth Duw gyda ni,
a gorffwysed ein brodyr a'n chwiorydd ymadawedig
mewn tangnefedd yn yr Arglwydd,
a chyfodi mewn gogoniant. Amen.

May God give you
his comfort and his peace,
his light and his joy,
in this world and the next;
and the blessing of God almighty,
the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**


God will show us the path of life;
in his presence is the fullness of joy:
and at his right hand there is pleasure for evermore.
(cf. Psalm 16.11)

To him who is able to keep you from falling
and to present you before his glorious presence
without fault and with great joy,
to the only God our Saviour
be glory, majesty,
power and authority,
through Jesus Christ our Lord,
before all ages,
now and for evermore. **Amen.**
(Jude 24, 25.)

Eternal rest grant unto *him/her*, O Lord,
and let perpetual light shine upon *him/her*.
Go in peace to love and serve the Lord.
in the name of Christ. **Amen.**

May God's help remain with us
and may our departed brothers and sisters in the Lord rest in peace,
and rise in glory. Amen.





ISBN: 978-0-85326-040-0

Price / Pris: £6.00

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru
Produced by the Church in Wales Publications Department

© 2009 Gwasg yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales Publications



9 780853 260400